Cyfrinachedd a Phreifatrwydd

Mae cadw cyfrinachedd ac anhysbysrwydd ein cleientiaid a'u staff sy'n ymateb i'n harolygon yn greiddiol i'n dulliau gwaith ac, oni nodir yn wahanol, dylech dderbyn ein bod yn ymdrin â'r holl wybodaeth a roddir i ni yn hollol gyfrinachol.

Ceir gwared ar unrhyw ddulliau adnabod personol sydd yn cysylltu cofnod unigolyn gydag unrhyw weithiwr a bydd y cyflwyniad yn hollol ddienw cyn gynted ag y byddwn wedi cau'r arolwg. Caiff y cyfeiriad e-bost a roddir gan ymatebwr ei gadw am gyfnod yr arolwg hwnnw yn unig, i'w g/alluogi i arbed gwaith a gwblhawyd yn rhannol ac i ddychwelyd ato yn ddiweddarach, ac i ganfod cyflwyniadau lluosog. Wedi hynny ni fyddwn yn cadw cofnod o'r cyfeiriadau e-bost hynny na'u defnyddio at unrhyw ddiben arall.

Gall cleientiaid ddefnyddio hidlwyr ar eu data ar sail gwybodaeth a gyflwynir gan weithwyr megis adran, ystod oedran neu gyfnod gyda'r cwmni. Fodd bynnag, er mwyn diogelu anhysbysrwydd ymatebwyr, nid oes modd hidlo'r data yn is na phum unigolyn.

Cedwir pob ymateb unigol fel data dienw a'u cydgasglu i ffurfio rhan o gronfa ddata gyflawn Leesman, i alluogi cymariaethau yn y dyfodol a pharatoi meincnodi sector diwydiant, rhanbarth a byd-eang. Ni fydd modd cysylltu'r data a gydgaslwyd, ar unrhyw adeg, gydag ymateb unigol na chanlyniadau arolwg i unigolyn o fewn sefydliad cleient. Fel gyda chymariaethau a seiliwyd ar ddemograffeg gweithwir, bydd cymariaethau prosiect megis sector y diwydiant, lleoliad neu fath o adeilad ond yn cael eu galluogi pan fydd y clwstwr yn ddigon mawr i warantu anhysbysrwydd gwybodaeth cleient.

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn mynnu bod pob sefydliad sydd yn prosesu data personol yn cofrestru gyda Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth y DU.

Rhif Cofrestru ICO Z2550906.